# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap-samplu

## Achosion â chyffuriau

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar Achosion Oedolion

**Rhagfyr 2025**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ..... 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg ..... 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel ..... 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ..... 3
5.0 Meysydd i'w gwella ..... 3
6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion ..... 3
7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ..... 7
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd ..... 9
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ..... 10
10.0 Camau gweithredu ..... 10

## 1.0 Trosolwg

Ar 16 Rhagfyr 2025, mynychodd aelodau o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion a saith achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau â chyffuriau yr oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas ag achosion oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- yr effaith bosibl ar y gymuned.
- yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel amheuon.
- defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf i __Carys Morgans__ (printiwch eich enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu, dyddiedig 16 Rhagfyr 2025.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 25/03/2026

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Darparwyd adborth i swyddogion lle penderfynodd y panel fod defnydd amhriodol o ddatrysiad y tu allan i'r llys wedi digwydd.
- Darparwyd adborth i swyddogion lle penderfynodd y panel fod yr achos yn enghraifft o arfer gorau o ddefnydd priodol o ddatrysiad y tu allan i'r llys.

## 5.0 Meysydd i'w gwella

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion:

- Ceisiwyd eglurder pellach gan y panel ynglŷn â'r strategaeth gyffuriau a roddwyd ar waith gan Heddlu Dyfed-Powys. Pwysleisiwyd yr angen i swyddogion ystyried a yw'r datrysiad y tu allan i'r llys yn addas ar gyfer yr unigolion yn hytrach nag a yw'n unol â pholisi.
- Drwy gydol yr achosion, penderfynodd y panel y gallai'r swyddogion fewnbynnu rhagor o wybodaeth i fanylu ar eu rhesymeg.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion

O'r wyth achos oedolion a ystyriwyd gan y panel, roedd chwech wedi cael eu trin drwy ddatrysiad cymunedol oedolion a dau drwy rybudd amodol oedolion.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 4 |
| Priodol ond gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 2 |

Manylir ar sylwadau aelodau'r panel isod.

**Achos 1**

Nodwyd gan y panel fod swyddogion wedi mabwysiadu dull cadarnhaol gyda'r troseddwr honedig i geisio datrys ei broblemau camddefnyddio sylweddau. Nodwyd hefyd fod y drosedd dan sylw yn fach iawn ac felly na fyddai wedi bod yn briodol i'r llysoedd ei hystyried. Fodd bynnag, cafwyd trafodaeth ynghylch hanes troseddu blaenorol y troseddwr honedig lle nodwyd gan y panel ei fod ar orchymyn cymunedol ar adeg cyhoeddi'r datrysiad cymunedol oedolyn. Daeth y panel i'r casgliad, er bod yr datrysiad cymunedol oedolyn wedi'i gyhoeddi'n gywir ac yn unol â pholisi'r heddlu, ei bod yn bwysig bod swyddogion hefyd yn ystyried a yw'r datrysiad y tu allan i'r llys hefyd yn briodol ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 2**

Trafodwyd nad oedd y swm o gyffuriau a ganfuwyd ym meddiant yr troseddwr honedig yn sylweddol a bod ymchwiliad manwl wedi'i gynnal gan y swyddogion. Codwyd pryderon gan y panel bod oedi sylweddol wedi bod cyn cyhoeddi hysbysiad er diogelu'r cyhoedd, a bod y troseddwr honedig wedi tynnu ei gyfaddefiad yn ôl yn ddiweddarach gan nodi ei fod wedi cael ei fygwth gan drydydd parti i gymryd cyfrifoldeb. Penderfynodd y panel na chafwyd cyfaddefiad clir gan y troseddwr honedig a chydnabu, er bod y polisi yn nodi nad oes angen i'r troseddwr honedig gyfaddef er mwyn iddo gael datrysiad cymunedol oedolyn, nad oedd yn briodol o dan yr amgylchiadau i gyhoeddi'r datrysiad cymunedol oedolyn.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Achos 3**

Yn ystod ei adolygiad, ystyriodd y panel fod y troseddwr honedig dan sylw yn unigolyn agored i niwed a nodwyd y gallai fod wedi bod yn ddioddefwr. Nododd y panel y dull iechyd cadarnhaol a gymerwyd gan swyddogion wrth i'r cyffuriau a ddarganfuwyd gael eu profi'n briodol i atal niwed pellach. Er bod y panel wedi penderfynu bod y rhybudd cymunedol oedolyn wedi'i gyhoeddi'n briodol, codwyd amheuon ynghylch lefel y manylder yn yr adroddiad. Codwyd cwestiynau ynghylch y dystiolaeth bosibl bod y troseddwr honedig hefyd yn cyflenwi cyffuriau, ac na

chofnodwyd unrhyw fanylion pellach. Felly, daethpwyd i'r casgliad bod y rhybudd cymunedol oedolyn yn briodol ond gyda amheuon ynghylch y manylion yn y log.

**Asesiad y panel:  Priodol ond gydag amheuon**

### Achos 4

Yn dilyn ystyriaeth, nodwyd y gwaith rhagweithiol a wnaed gan swyddogion wrth adolygu'r cyffuriau a ddarganfuwyd a chynnal chwiliad pellach yng nghyfeiriad y troseddwr honedig. Yn dilyn hyn trafodwyd cyhoeddi'r rhybudd cymunedol oedolyn a nododd y panel y gallai'r adroddiad fod wedi cynnwys rhagor o fanylion a rhesymeg glir ynghylch pam y cafodd ei gyhoeddi. Amlygwyd hefyd mai'r unig ffactor yn y rhybudd cymunedol oedolyn oedd dinistrio'r cyffuriau a chwestiynodd y panel a gollwyd cyfle i ymyrryd/cynnal gweithgarwch dargyfeiriol. Ar y cyfan, daeth y panel i'r casgliad bod y rhybudd cymunedol oedolyn wedi'i gyhoeddi'n briodol er bod ganddynt amheuon ynghylch y diffyg manylion yn y rhesymeg a'r cyfle a gollwyd i ymyrryd/ cynnal gweithgarwch dargyfeirio.

**Asesiad y panel:  Priodol ond gydag amheuon**

### Achos 5

Nodwyd gan y panel fod y datrysiad cymunedol oedolyn a gyhoeddwyd ar gyfer tri digwyddiad cyffredinol a oedd yn cyfateb i swm mawr o ganabis a fewnforiwyd i ardal yr heddlu. Trafododd y panel, er bod yr datrysiad cymunedol oedolyn yn unol â pholisi'r heddlu, a oedd hwn yn ganlyniad cywir ar gyfer y digwyddiad hwn gan y gellid o bosibl bod wedi cymryd camau pellach. Cydnabuwyd hefyd nad oedd yr oruchwyliaeth a ddarparwyd ar gyfer y swyddog yn gefnogol a chymerwyd camau i'r arolygydd roi adborth i'r goruchwyliwr dan sylw. Daeth y panel i'r casgliad y dylid bod wedi cymryd camau pellach ac felly barnwyd fod y datrysiad cymunedol oedolyn yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Anaddas**

**Cam gweithredu 1**

Darparu adborth i oruchwyliwr Achos Oedolyn 5 yn dilyn penderfyniad y panel bod y datrysiad cymunedol oedolyn wedi'i gyhoeddi'n amhriodol.

### Achos 6

Cydnabu'r panel y swm bach o gyffuriau a ganfuwyd a phenderfynwyd fod y datrysiad cymunedol oedolyn a gyhoeddwyd yn briodol ac ni chodwyd unrhyw bryderon.

**Asesiad y panel:  Priodol**

### Achos 7

Rhoddwyd ystyriaeth i'r swm bach o gyffuriau a ganfuwyd ac ymddygiad y troseddwr honedig. Daeth y panel i'r casgliad bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn ganlyniad priodol o dan yr amgylchiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon pellach.

**Asesiad y panel: Priodol**


### Achos 8

Ystyriodd y panel, er bod y datrysiad cymunedol oedolyn a gyhoeddwyd yn briodol yng nghyd-destun y drosedd hon, fod y troseddwr honedig eisoes ar fechnïaeth am drosedd bellach ac felly cwestiynwyd y pwrpas dros ddarparu'r gweithgaredd dargyfeiriol. Daeth y panel i'r casgliad bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol yn amgylchiadau'r digwyddiad hwn.

**Asesiad y panel: Priodol**


## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion cyffuriau oedolion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o ddatrysiadau. Ar gyfer mis Rhagfyr 2024, datrysiad cymunedol oedolyn oedd 100% o'r datrysiadau a ystyriwyd. Ym mis Rhagfyr 2025, deliwyd â 75% o'r achosion a ystyriwyd drwy ddatrysiad cymunedol oedolyn a 25% drwy rybudd cymunedol oedolyn.


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau'r panel rhwng Rhagfyr 2024 a Rhagfyr 2025 yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Rhagfyr 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Rhagfyr 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae’r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:



Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Unigolyn dan amheuaeth Hunan-asesiad | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 6 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 6 |
| Anhysbys | 2 | 2 |

Mewn dau o'r achosion a adolygwyd, ni chofnodwyd ethnigrwydd. Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y byddai'r panel yn dymuno canolbwyntio ar adolygiad o achosion o siop-ladrad yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Rhif gweithredu | Crynodeb | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| OOCR - 164 | Darparu adborth i oruchwyliwr Achos Oedolyn 5 yn dilyn penderfyniad y panel bod y datrysiad cymunedol oedolyn wedi'i gyhoeddi'n amhriodol. | Arolygydd Coppock |